"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1883. [RHIF 20.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Crist y Credoau a Christ yr Efengylau	73
Yr Ysgol Sul a'r moddion goreu i'w gwneyd yn fwy llwyddiannus	77
Tori Ty y Garddwr	80
Y Llith Od	82
Paham y mynychwn le o addoliad	84
Bywyd yr Iesu	86
Cynnydd meddwl yn yr Eglwys	88
Onid Cymraeg yw	91
Mynwent Hen-Dy-Cwrdd, Cefncoed	92
Pwnc y Dybacco	93
Manion a Hanesion	94
Marwgofion	96

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] EBRILL, 1883. [Rhif. 20.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CRIST Y CREDOAU A CHRIST YR EFENGYLAU.

DARLITH

GAN Y PARCH. BROOKE HERFORD, BOSTON, U.D.A.

Rhan III.

Mae yn amlwg wrth ddarllen yr Efengylau nad ystyrid yr Iesu ond dyn yn unig gan y rhai oeddent oddiamgylch iddo. Nid oes gan ei berthynasau ei hun yn amlwg un syniad am unrhyw beth yn rhagor, oblegyd yr ydym yn darllen sut y darfu iddynt anfon i'w ymofyn adref fel un wedi colli arno ei hun. Yn ddiamheu nid oedd y dysgyblion, neu ni fuasai Judas byth wedi ei fradychu, na Phetr ei wadu, na'r gweddill ei adael. Yn ddiamheu nid oedd yr Iuddewon, neu ni fuasent byth wedi ei groeshoelio. Mor amlwg yw hyn fel cyn gynted ag y darfu i'r athrawiaeth o enedigaeth oruwch-ddynol neu Dduwdod yn Nghrist gael ei mabwysiadu, un o'r pethau ag mae dynion yn geisio esponio yw, paham nad oedd yr athrawiaeth wedi cael ei dadguddio yn ystod ei fywyd. Mae Athanasius yn gosod allan yr esponiad cyffredin pan y dywed:—"Yr oedd yr Iuddewon i gyd wedi eu hargyhoeddi mor gadarn nad oedd eu Messiah i fod yn ddim mwy nâ dyn tebyg iddynt eu hunain, fel ag yr oedd yr Apostolion yn rhwymedig o ddefnyddio gofal a gochelgarwch neillduol wrth wneyd yn gyhoeddus briodol Dduwdod Crist." Mae rhai o'r hen dadau yn rhoddi esponiad mwy cywrain. Dywedai Ignatius, yr hwn a ysgrifenai ar amser pan nad oedd dynion wedi myned yn mhellach nâ'r cenedliad gwyrthiol yn eu gwaith o wneyd Iesu Grist yn Dduw—dywedai hyd y nod am hyny ei fod wedi ei guddio oddiwrth y Diafol; a chymmerodd yr

ysgrifenwyr dylynol y syniad i fyny, ac ymresymant fod hyny yn angenrheidiol ; oblegyd pe byddai'r Diafol yn gwybod am Dduwdod Crist, ni fuasai wedi cynhyrfu yr Iuddewon i'w groeshoelio, ac yn y modd hyny y buasai yn andwyo trefn yr iachawdwriaeth. Ac i ddyfod i lawr i'r amser presenol yr ydym yn cael Mr. Gladstone yn un o'i draethodau ar "Ecce Homo," yn addef nad oedd Crist wedi ymddangos i'r rhai oeddent oddiamgylch iddo ond fel dyn, er ei fod ef yn meddwl fod y Duwdod yn trigo ynddo. Dywed fel hyn :—"Mae'n ymddangos ar y cyfan gyda golwg ar berson ein Harglwydd fod ei arddangosiad cyffredin o flaen ei wrandawyr a'i edrychwyr fel eiddo dyn, yn cymmeryd ei ran yn y weinidogaeth oreu a mwyaf santaidd, gan hawlio yn ddiamheuol awdurdod i'r hyn a ddywedai ac a wnelai, ond tu hwnt i hyn yn honi dim am dano ei hun, ac yn gadael ei hun i gael ei farnu gan gymmeriad ei eiriau a'i weithredoedd." Mae yn wir y meddyliai Mr. Gladstone mai oblegyd caledwch a chyndynrwydd ei oes y darfu i Grist beidio dadguddio ei hun yn gyflawn ; ond fel yr egluriadau ereill ydwyf wedi grybwyll, y peth mwyaf pwysig yw'r *ffaith*, mai y dadblygiad rhyfeddol hwnw o grefydd a bywyd, oedd bywyd personol Iesu Grist, fel yr oedd yn myned oddiamgylch, o ran dim a wyddai dynion i'r gwrthwyneb, yn ddyn yn mhlith dynion. Gadewch i bwy bynag a ddewiso lawenhau mewn rhyw ddadguddiad tybiedig o ogoniant cyflawnach ar ol hyny. Nid ydwyf fi yn meddwl y gallasai fod gogoniant mwy cyflawn mewn gwirionedd. Yn sicr yr un peth amlwg yw fod y dylanwad cyntaf hwnw y mwyaf, y puraf, y mwyaf ardderchog a nerthol ag mae'r galon ddynol wedi deimlo erioed, ac mae mor amlwg â hyny hefyd, fod yr ol-feddyliau ag mae rhai yn ystyried fel yn cwblhau ei amlygiad gerbron y byd, mewn gwirionedd wedi llychwino ei ddelw ac wedi gwanhau ei ddylanwad.

Yr wyf wedi dangos beth mae'r Eglwysi wedi wneyd o Grist, ac yr wyf wedi ceisio galw eich sylw at ddelw Crist fel mae'n cael ei gosod allan yn yr Efengylau. A oes eisieu i ni ddweyd rhagor, pa un o'r ddau, y mae'n perthyn i ni gredu ynddo, i lynu wrtho a'i garu, cymharwch eu ffrwythau trwy yr oesau. Onid ydych wedi sylwi sut mae'r ddau Grist yma wedi bod bob amser yn gweithio yn y byd. Crist yr Eglwys a'r Credoau sydd wedi cael y lle uchel. Ei ddelw ef sydd wedi cael ei gorseddu mewn Eglwysi Cadeiriol, ac wedi ei derchafu i fyny gan yr offeiriadaeth gerbron y byd. Ond nid yw Crist yr Efengylau ddim wedi marw yn hollol. Mae y ddelw yma o hono, yn gymhwys fel ag yr oedd, ar wahan oddiwrth unrhyw athroniaeth yn nghylch ei natur—y meddwl am ei fywyd cariadus a thrugarog—y pethau pwysig ag y llefarai ef wrth ddynion am danynt wedi cymmeryd gafael rhyfedd ar ddynolryw, wedi preswylio yn dawel trwy ffydd yn eu calonau, wedi myned oddiamgylch gyda hwy yn gwneyd daioni : o dan wyneb dadleuon ac erlidigaethau, mae y meddwl am Grist fel mae yn byw am byth yn ei hanes yn myned yn mlaen gan dyfu yn nghalonau dynion—y bywyd syml hwnw cyssegredig i Dduw—sydd yn aros yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd. Pa un o'r rhai hyn sydd wedi bod yn wir gynnorthwywr ac yn Iachawdwr y byd.

Mae'r hanes am y Crist Eglwysig wedi bod trwy yr oesau yn hanes ymryson, ymraniad a chwerwder. Mae yn fynych wedi gwneyd y byd Cristionogol y fath olygfa fel y gallai y paganiaid ddweyd:—"Edrychwch sut mae'r Cristionogion yma yn cashau eu gilydd." Tebyg yw ei fod wedi gwneyd mwy nâ dim arall yn y byd i arwain dynion—dynion da a duwiol i ddefnyddio geiriau cywilyddus ac i gyflawnu gweithredoedd creulawn ac annynol. Yr oedd Athanasius yn un o ddynion mwyaf ei amser; ac etto mae Deon Stanley yn dyfynu fel ymadroddion dewisol a ddefnyddiai am ei wrthwynebwyr Ariaidd y rhai a ganlyn:—Diafliaid, Atheistiaid, Ynfydion, Aunghristiau, Iuddewon, cwn, bleiddiaid, llewod, seirff, gwybed a chwilod. Mae Gregory Nazianzen yn galw cynghorau yr esgobion yn gynnulliadau crychyddion a gwyddau. Pan y bu farw Cyril, esgob enwog Alexandria, dywedai Theodoret ei fod wedi myned i boeni trigolion y byd arall â'i haerdybiaeth diderfyn, ac mae'n ychwanegu:—"Tafled pob un gareg ar ei fedd rhag iddo wneyd hyd y nod uffern yn rhy boeth i'w ddal, ac felly ddychwelyd yn ol i'r ddaear." A'r hyn sydd yn waeth nâ geiriau celyd, mae y dadleuon yma wedi gosod dwylaw dynion yn erbyn eu gilydd, wedi troi olwynion arteithglwydi y Chwil-lys Pabyddol, wedi chwythu tanau Smithfield a llanw y ddaear â gwaed.

Ond a oes unrhyw ddadleuon neu erlidigaethau chwerw wedi cymmeryd lle erioed wrth fod dynion yn ymdrechu dyfod yn agosach at Grist yr Efengylau? A ydyw pobl erioed wedi galw enwau salw ar eu gilydd wrth geisio deall ystyr y bregeth ar y mynydd? A ydynt wedi carcharu y naill y llall am beidio credu dammeg y Samaritan trugarog? A ydynt wedi llosgi eu gilydd am beidio bod yn iach yn y ffydd yn nghylch y mab afradlawn? Tra mae'r credoau a'r Eglwysi wedi bod yn rhanu dynion mewn digter, llid, a malais, mae'r Efengylau wedi cynnyrchu mewn llawer calon undeb a thangnefedd sydd uwchlaw pob gwybodaeth.

Ac felly hefyd y Crist hwn sydd eisieu arnom fel athraw. Yr wyf yn argyhoeddedig mai astudiaeth ddifrifol wirioneddol a chariadus o Grist yw y ffordd yn awr fel cynt at y gwirionedd uwchaf mewn crefydd. Mae rhai pobl yn amheu hyn. Ystyriant, yn wir, fod chwilio am feddwl Crist yn well nâ derbyn yr hen gredoau, ond dywedant fod Iesu Grist wedi myned allan o *ddafe*, Cristionogaeth wedi chwareu ei rhan, a rhyw grefydd uwch i gymmeryd ei lle. Nis gallaf feddwl hyny. Yr wyf yn gweled sut mae meddylwyr mawrion yr oes yn *drifto* nas gwyddant pa le, yn amheu sylweddau dyfnaf y bywyd ysprydol, cyn gynted ag y gadawant eu safle Gristionogol. Allwn ni ddim tori ein hunain ymaith oddiwrth athraw mwyaf yr amser sydd wedi myned heibio. Yr wyf yn meddwl fod y byd yn anesmwyth gan amheuon nas gall dim eu boddloni ond yspryd Iesu Grist. Ond mae yn rhaid i ni ofalu ei fod yn yspryd Crist. A dyma lle y gwelwn ni y pwysigrwydd o gadw at Grist yr Efengylau. Y ffaith yw fod llawer o bethau yn cael eu dysgu fel Cristionogaeth yn yr Eglwysi na ddysgodd Iesu Grist erioed o honynt. Pa bryd y dywedodd Iesu Grist air erioed am y Drindod, neu am bechod gwreiddiol? Pa bryd y dysgodd efe nas

gall dyn wneyd dim ond pechu, ac ar yr un pryd y bydd Duw yn sicr o'i gospi am dragywyddoldeb os gwna efe rywbeth nad yw yn iawn? Pa bryd y dysgodd Iesu Grist ei fod ef wedi dyfod i'n hachub ni, nid trwy ein cynnorthwyo i wneyd ewyllys Duw, ond trwy ei fod ef ei hunan yn dwyn ein cospedigaeth ac yn cyfrif i ni ei haeddedigaethau? Mae dynion yn dweyd mai oblegyd nad ydym yn credu yn Nghrist y gosodwn ein gwyneb yn erbyn y fath athrawiaethau. Yn hytrach oblegyd *ein bod* yn credu ynddo. Yr ydym yn credu mor ddwfn ynddo; mae genym y fath argyhoeddiad clir ei fod ef wedi dysgu ei grefydd ei hun fel y bwriadai i ddynion i'w derbyn, fel nas gallwn fabwysiadu fel rhan o'i grefydd yr hyn na ddysgodd erioed. Ceisia dynion *bropio* i fyny yr athrawiaethau yma trwy ddyfynu Job neu Dafydd, neu Esaiah neu Paul. Yr ydym yn credu fod y dyfyniadau yma gan mwyaf yn gamddarluniadau o'u gwir ystyr; ond pa un ai ydyw felly neu peidio, yr ydym yn gofyn beth ddywed yr Athraw? Yr ydym yn prisio yn fawr yr hyn a ddysgai'r Apostolion; etto ar ol y cwbl pe gofynid iddynt hwy pa un ai *hwy* neu *efe* a ddeallent neu a ddysgent yr Efengyl oreu, pwy all amheu beth fyddai'r ateb? Felly yn nghanol cymmysgedd y gwahanol gyfundrefnau sydd yn honi ein gwarogaeth, yr ydym yn troi at yr Efengylau. Yr ydym yn ceisio gweled beth a feddyliai Crist, beth yr ai efe oddiamgylch i'w ddysgu, a beth oedd efe yn awyddus am i ddynion i gredu; ac O! faint o'u dyryswch sydd yn diflanu ymaith, a'r fath grefydd syml, ddedwydd, obeithiol ac ymarferol sydd yn aros. Ac yr ydym yn credu pe byddai'r holl Eglwysi ddim ond derbyn y rheol yma,—"Crist ei hun yn Athraw i Gristionogion," darfyddai camgymmeriadau a chyfeiliornadau ydynt wedi bod yn flodeuog oes ar ol oes, a daethai Cristionogaeth yn allu newydd yn mhlith dynion.

Yr wyf yn gofyn eich cymhorth, gan hyny, i ymlid ymaith Grist y Credoau, a dwyn allan gyda bywyd a nerth Grist syml yr Efengylau. Cadwch y bywyd hwnw o'ch blaen fel y sylwedd mawr Cristionogol. Hyd y nod fel cysgod niwlog, o dan leni o dywyllwch, yn cael ei esgeuluso gan athrawon Cristionogaeth, wedi ei adael i gymmeryd ei *chance* trwy yr oesau, pan nad oedd yr Efengylau tufewn i gyrhaedd y bobl gyffredin, mae er gwaethaf y cwbl, wedi bod yn elfen bywyd a nerth, yn gerydd i hunanoldeb ac anghariad, i bobpeth twyllodrus a drwg, yn gefnogaeth i hunanymwadiad ac ymlyniad dwfn wrth y gwirionedd, i ymdrechion diorphwys dros ddaioni dynol, ac i hyder anorchfygol yn y Duw byw. Os felly beth *nad* all ei wneyd, ond i ddynion ddyfod i weled mai bywyd Crist, yw Crist ei hunan, ac i edrych ar y bywyd hwnw gyda'r un awydd ag maent wedi edrych ar hen gredoau marw yr amser sydd wedi myned heibio. Ac yr wyf fi yn credu mai dyma'r yspryd sydd yn codi. Yr wyf yn ei weled yn agwedd dynion ystyriol a meddylgar yn mhob man. Mae yn ymgais nodweddiadol bywyd crefyddol yr oes hon i fyned yn ol tuhwnt i'r credoau at y Crist ei hun fel yr oedd ef yn byw yn y byd yma. Yr ydych yn gweled yr yspryd yma yn cael ei ddangos gan feirdd, ysgolcigion, gwleidyddwyr a llenorion—yn mhawb. Mae yr hen gredoau

am Grist yn diflanu ymaith o feddyliau effro dynion yr oes hon; ond fel maent yn diflanu, mae yr hen fywyd yn ymddangos yn mhrydferthwch ei santeiddrwydd, ac mae'r bywyd hwnw am byth yn oleuni y byd.

Cyfieithad LAICUS.

YR YSGOL SUL

A'R MODDION GOREU I'W GWNEYD YN FWY LLWYDDIANNUS.

Y MAE llawer iawn o sylw wedi cael ei dalu yn ddiweddar, ac yn parhau i gael ei dalu yn bresenol gan ein brodyr Undodaidd yn Lloegr i'r pwnc gwir bwysig yma. Yn wir, y mae mwy o ymgomio ac ysgrifenu arno wedi bod yn ddiweddar nag un pwnc arall, ac ni allwn ni ddim llai nâ chredu a chydnabod ei fod yn llwyr anmhosibl i dalu mwy o sylw ac ystyriaeth iddo nag y mae yn hawlio a'i deilyngu. Diau fod darllenwyr YR YMOFYNYDD yn cofio i bapyr rhagorol dda gael ei ddarllen yn rhanol arno yn y Cwrdd Blynyddol diweddaf yn Pantydefaid, gan J. Hathren Davies, Cefncoed, ac iddo gael ei gyhoeddi yn gyffiawn wedi hyny ar dudalenau ein Misolyn. Y mae ynddo sylwadau o werth i'w cofio a gweithredu yn eu hol, a'n gobaith ni yw eu bod wedi cael eu darllen yn ofalus, ac wedi cael eu hargraff ddyladwy erbyn hyn ar feddyliau rhan luosog o'i ddarllenwyr. Gan nad oedd amser yn caniatau yn y cwrdd uchod i ni wneyd yr ychydig sylwadau oeddym wedi eu parotoi, efallai y gall y Golygydd fforddio ychydig ofod i'w croniclo, os gwel ef hwynt o werth, yn YR YMOFYNYDD, pan na fyddo ar law rywbeth mwy derbyniol ac adeiladol.

Yn mhlith y gwahanol "foddion goreu i wneyd yr Ysgol Sul yn fwy llwyddiannus," y mae *Prydlondeb* o du yr athrawon yn un peth gwir angenrheidiol. Yr ydym wedi clywed rhai o'n Hysgolion Sul yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd gwasanaeth y boreu i ddechreu am ddau o'r gloch yn y prydnawn; ond yn lle dechreu yn brydlon efallai na fydd yno ddim cymmaint ag un athraw erbyn hanner awr wedi dau. Prin y mae achos i ni ddweyd, yn ngwyneb y ffaith anwadadwy yma, pa sut ddylanwad y mae hyny yn gael ar y deiliaid, ac a pha mor aneffeithiol er daioni yw y fath arferiad annymunol; ond os ydym ni am i'n Hysgolion Sul fod y peth y carem iddynt fod, y mae yn rhaid wrth brydlondeb. Os yw yr Ysgol yn cael ei chyhoeddi i ddechreu am ddau o'r gloch, *dechreuer* am ddau, neu enwer rhyw amser arall, a glyner wrtho, a bydd hyny yn sicr o ddylanwadu er gwell ar yr athrawon yn gystal ag ar yr holl ddeiliaid, am y bydd y gwaith i fyned yn mlaen yn llawer mwy hwylus hyd ei derfyniad mewn amser priodol. "Y cymhorth gofynol cyntaf," meddai un, "yw prydlondeb a rheoleidd-dra mewn mynychu yr Ysgol; dylai pob athraw deimlo mai ei ddyledswydd ef yw bod yn ei le cyn y byddo yr Ysgol yn cael ei

hagor, oblegyd wrth wneuthur felly y maent, nid yn unig yn sicrhau trefn yn eu dosparthiadau, ond hefyd yn cryfhau dwylaw yr arolygydd. Y mae yn rhaid i weithwyr yn yr Ysgol Sul ddangos tipyn o hunan-aberthiad; gan fod y gwaith yn wirfoddol, y mae mwy o angen am iddo gael ei wneyd yn dda."

Y mae yn arferiad mewn rhai manau, wedi i'r Ysgol gael ei hagor mewn modd ffurfiol, i rai o'r athrawon i eistedd i lawr yn dawel a siarad am chwarter awr, mwy neu lai, am bethau a dygwyddion ac helyntion nad oes dim a fynont â'r Ysgol Sul o gwbl, nac â gwir les neb sydd yn perthyn iddi. Y mae eisieu, oes yn wir y mae angen am welliant mawr, mewn rhai manau o leiaf, yn y cyfeiriad yma. Yn nesaf. Fe wyr pob saer maen na all efe ddim cyflawnu nemawr o un gorchwyl da, o leiaf fel y dymunai, megys adeiladu tŷ, gweithio cart, na chodi melin, heb offerynau neu *dools* priodol at hyny o orchwylion. Felly yn union gyda golwg ar ein Hysgol Sul; ei hangenion neu ei hangenrheidiau cyntaf yw llyfrau addas, a digonedd o honynt ynddi, fel na byddo yr athrawon o dan yr un anfantais, yn yr ystyr yma, i gario eu gwaith yn mlaen. Prin achos i ni ddweyd fod prinder o'r fath lyfrau, mor bell ag y mae ein gwybodaeth ni yn myned, yn rhy gyffredin yn ein plith; ac os ydym i ddysgwyl am fwy o lwyddiant i ddylyn ein Hysgol Sul, ni ddylai ddyoddef rhagor oblegyd prinder llyfrau priodol er hwylysu ei chynnydd, neu ei gwneyd yn fwy llwyddiannus nag yn bresenol. Y mae llawer o lyfrau da iawn, ac addas i'r Ysgol Sul, wedi cael eu cyhoeddi yn ddiweddar gan ein *Sunday School Association*, ond gan mai rhai Seisnig ydynt, ni allant fod mor gynnorthwyol ag y carem i'n hathrawon Cymreig; ond, er hyny, gallant fod o les mawr pe buasai y cyfryw yn eu darllen yn eu horiau hamddenol yn ystod yr wythnos. Y mae parotoad blaenorol yn hanfodol i effeithiolrwydd a llwyddiant y sefydliad bendigedig yma. Peth arall yw yr angenrheidrwydd mawr i'r athrawon ddefnyddio geiriau a brawddegau, pan yn siarad gyda ac wrth y plant, ag y gallant eu deall yn hawdd, ac felly i gael argraff dda ar eu meddyliau. Dywed yr apostol Paul wrth ei ysgolheigion mewn un man fel yma,—"Gwell genyf lefaru pum gair trwy fy neall, fel y dysgwyf ereill hefyd, na myrddiwn o eiriau mewn tafod dyeithr." Y mae yn bosibl dysgu gwers dda ac effeithiol er daioni oddiwrth y geiriau yma. Am y rheswm na byddai llawer o bregethwyr y gair yn defnyddio ymadroddion cartrefol a dealladwy y mae eu pregethau yn syrthio yn fynych ar glustiau llawer o'u gwrandawyr fel dwfr ar gefn hwyad. Nid yw eu cyd-ddynion yn cael eu hadeiladu yn y ffydd. Felly hefyd, er gwaethaf y modd, y mae rhai athrawon yn rhy hoff o ddefnyddio geiriau a brawddegau nad yw eu dysgyblion ddim yn eu deall. Gocheler hyn hyd y gellir. Dylai yr athrawon wybod yn ymarferol beth sydd ganddynt mewn llaw a pharotoi, fel yr awgrymwyd eisoes, eu gwersi yn dda cyn dyfod i'r ysgol, trwy eu gwneyd yn addasedig i ddeall a chynneddfau y plant fyddo dan eu gofal. Os na wnant felly, y mae yn anmhosibl, yn ol natur pethau, iddynt effeithio nemawr os dim o ddaioni; ond os gwnant felly, y maent yn sicr o wneyd llawer i

oleuo eu meddyliau, ac felly i'w parotoi i fod o fendith iddynt eu hunain yn y presenol, a'r sawl fyddo dan eu gofal yn y dyfodol.

Y Beibl; meddyliwn ni nad oes yr un llyfr wedi, ac yn cael cymmaint o gam oddiar ddwylaw llawer o athrawon yr Ysgol Sul â hwn. Peth cyffredin iawn, yn rhai o'n Hysgolion o leiaf, yw clywed pennod ar ol pennod yn cael eu darllen yn y gwahanol lyfrau sydd yn ei wneyd i fyny, heb fod yr un sylwad na'r un awgrymiad yn cael ei roddi gan yr athrawon yn nghylch ystyr yr hyn fyddo yn cael ei ddarllen. Cyfaddefwn fod llawer iawn o bethau yn y Beibl ag y mae yn anhawdd iawn i'w hegluro yn foddhaol, yn neillduol felly i blant; ond ar yr un pryd y mae llawer rhagor o bethau buddiol a llesiol, dyrchafedig a chyssegredig ynddo, y rhai, o'u deall yn drwyadl gan yr athraw a'u gwneyd yn amlwg i'w ddosparth, fuasent yn foddion i wneyd yr Ysgol Sul yn llawer mwy llwyddiannus er daioni nag ydyw yn bresenol.

Y prif amcan o bob gwaith yn ein Hysgol ddylai fod daioni, dyrchafiad a diwylliant y plant fyddo yn ymgasglu iddi o Sul i Sul, a chyda golwg i wneyd felly, amlwg yw fod yn rhaid i'r athrawon yn neillduol gael eu llanw ag yspryd yr hwn a fendithiai blant bychain, ac y dywedai mai eu heiddo hwy yw teyrnas nefoedd. Bydded i bob Cristion, yn mhob eglwys, gael ei ysprydoli â'r ysprydoliaeth sydd oddi uchod, fel y byddo trwy hyny i fyned ei hunan, ac arwain ereill ar hyd ffyrdd rhinwedd a daioni, ac i wir wybodaeth o Dduw fel Ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. Os gwneir felly, fe fydd y ffrwyth, o angenrheidrwydd, yn ddymunol a melus yn wir.

Wrth ysgrifenu yr ychydig linellau anmherffaith yma, ni ddymunem, ar un cyfrif, i'r un o'n hathrawon yn ein Hysgolion Sul i dynu y casgliad ein bod wedi eu gosod at eu gilydd gyda golwg i'w digaloni yn y fath fodd ag i beri iddynt laesu yn eu hymdrechiadau canmoladwy o'i phlaid yn y dyfodol; ond yn hytrach i'w dirgymhell, mewn yspryd cariad, i wneyd ymdrechiadau mwy egniol, prydlon ac effeithiol yn y dyfodol o'i phlaid.

Y mae o bwys mawr iawn i'r oll o ddarllenwyr Yr Ymofynydd, ac yn neillduol ein holl aelodau eglwysig, i gymmeryd dan eu hystyriaeth fod parhad a chynnydd yr achos a broffeswn ni fel Undodiaid, ei garu a'i werthfawrogi yn ymddibynu llawer iawn ar yr addysg a gyfranwn a'r ffyddlondeb a ddangoswn o du y cyfryw. Fel y plentyn felly hefyd y dyn. Os caiff addysg dda yn moreu ei oes, mwy nâ thebyg y cyfrana y cyfryw i'r rhai fydd dan ei ofal a'i dywysiad wedi i'r ffyddloniaid presenol ganu yn iach i faes eu llafur presenol. Fel ydym ni yn myned rhag ein blaen mewn oedran a phrofiad, teimlwn fod ein cyfrifoldeb yn cynnyddu i'r un cyfartaledd, ac yn herwydd hyny nid dibwys yn ein golwg yw pob ymdrech a wneir yn yr iawn gyfeiriad. Os oes rhai athrawon yn ein plith dipyn yn rhy glaer a difater gyda golwg ar lwyddiant ein Hysgolion Sul, y mae yn llon genym feddwl a gwybod fod llawer ereill o honynt mor ffyddlon ag y gellid dysgwyl a dymuno eu bod.

E. W. L.

TORI TY Y GARDDWR.

Yn fuan wedi dechreuad Wesleyaeth yn Lloegr taenodd yn gyflym iawn dros Cornwall. Amlygodd y dosparthiadau uchel, yr *higher classes* fel y maent yn cael eu galw, y fath deimladau cas at yr athrawiaethau newyddion nas gallwn ni braidd eu dychymygu yn y dyddiau presenol. Tybiai rhai o'r *young gents* mai *sport* iawn oedd tori ffenestri a chloi drysau y capeli.

O nifer y pregethwyr lleol oedd un a adwaenid fel yr "Hen Arddwr," "*Old Gardener.*" Cadwai *nursery* tua dwy filldir o St. Aubyn. Yr oedd yn byw yn llwm, rhoddai weddill ei ennill mewn cardod, dosparthai Feiblau, ac hyd eithaf ei allu ceisiai daenu egwyddorion Wesleyaeth. Un tro gwnaed ymdrech i dori ei dŷ. Yr oedd yn byw gyda'i wraig mewn bwthyn bychan, heb fod yn mhell o'r ffordd fawr. Yr oedd tri scweier ieuainc, y rhai a gasaent Wesleyaeth, wedi clywed fod yr hen wr wedi bod yn ddiweddar yn casglu at gael capel newydd, a thybient y byddai yn foddion llawenydd iddynt yspeilio yr hen wr dros ychydig amser o'r elw. Adroddir yr hanes yn oreu yn ngeiriau un o'r *actors*: "Cychwynasom," meddai "ar ein hymdaith, â'n gwynebau wedi eu pardduo, ac ar noson dywell. Dywedais y buasai yn well genyf fi fyned yn ol nag yn mlaen: 'Cofiwch' meddwn 'mae yr hen lanc yn hen filwr yn gystal ag yn hen saint, ac nad yw efe yn ofni dim dynol.' '*Nonsense*' meddai Ryder, 'ffwrdd â ni.' Gwasgodd ddrws gwan y bwthyn i mewn, a chawsom ein hunain yn y gegin. Er syndod i ni, gwelsom oleuni gwanaidd yn llewyrchu mewn ystafell oedd nes i mewn. Parodd hyn i ni oll bryderu, 'Pwy sydd y tu allan yna yr amser hyn o'r nos' meddai llais garw oddifewn. Gwyddwn mai llais yr Hen Arddwr oedd. 'Rhoddwch i ni eich arian ac ni ddygwydd dim niwed i chwi' meddai Tom; 'ond y mae yn rhaid i ni gael eich arian.' 'Yr Arglwydd a fydd yn amddiffynfa i mi' oedd ateb yr Hen Arddwr; 'dim arian gewch chwi yma oddiwrthyf fi; eiddo yr Arglwydd yw yr oll yn y tŷ hwn, cymmerwch ef os beiddiwch.' 'Mae yn rhaid i ni ei gael' meddem ninau, ac i mewn â ni i'r ystafell, gan sicrhau y drws ar ein hol. Nid hir y buom cyn dymuno ein bod wedi gadael y drws yn agored. Yn awr, fe ymddangosodd golygfa hardd o'n blaen, Tri *scamp*—ni ein hunain—â chlogynau gwynion am danom, a'n gwynebau yn dduon; ger ein bron yr Hen Arddwr yn eistedd ar echwyn ei wely (a chanddo grys *check*, a siaced wlanen, capan coch ar ei ben), ac edrychai ei wyneb llwyd, gyda'i farf wen, mor dawel a digryn â phe byddai yn y pwlpud yn pregethu. Yr oedd bwrdd o'i flaen, ac ar y bwrdd Feibl mawr yn agored, ac yn ymyl y Beibl, er braw a dychryn i ni, grugyn mawr o bowdwr gŵn, yr hwn a rewodd ein gwaed ac a wnaeth gowardiaid o honom oll. Gwelodd y Garddwr yr argraff oedd wedi wneuthur arnom. 'Beth' meddai 'yr ydych am yspeilio a llofruddio, tybiaf mai gwell gwaith fydd i chwi uno â mi mewn gweddi, bechaduriaid truein fel yr ydych i gyd. Edifarhewch fel y byddoch gadwedig.' Ryder oedd y cyntaf i gael gafael ar ei dafod. 'Os gwelwch yn dda,

Mr. Gardener, yr ydym yn teimlo ein bod yn feius iawn, ac os cawn ymadael, gwnawn iawn i chwi, a chewch yr holl arian sydd yn ein pocedi.' Gosodasom ein pyrsau ar y bwrdd o'i flaen. 'Mae yr Arglwydd wedi eich rhoddi i fyny i fy nwylaw. Dadguddiwyd felly i mi yn fy mreuddwyd. Ni a fyddwn yn union mewn byd arall. Gweddiwn, gadewch i ni weddio!' Ac i lawr y syrthiodd yr hen wr ar ei liniau yn ymyl y bwrdd, gyda'r ganwyll yn llosgi, a *flint* a *steel* wrth law. Gweddiodd, a gweddiodd, a gweddiodd. O'r diwedd, ymddangosai fel wedi blino. Arosodd, ac edrychodd ar y pyrsau. Arllwysodd gynnwysiad un ar y bwrdd, ymddangosai yn syn, ac fel y tybiwn yn foddhaol wrth weled maint y swm.

Meddyliasom yn awr y cawsem ganiatad ganddo i fyned allan; ond er syndod i ni, 'Yn awr,' meddai yr Hen Arddwr, 'gadewch i ni foli Duw trwy ganu y ganfed Salm.' Yr oedd hyn yn ergyd tost i ni gyd. Ar ol y Salm, cymmerodd yr hen wr yr ail bwrs i fyny, a thra yr oedd yn llygadrythu ar ei gynnwysiad, dywedodd Ryder yn isel, 'Yr wyf wedi agor y drws, pan glywch fi yn cyffro, rhedwch.' Pan oedd yr Hen Arddwr yn arllwys yr ail bwrs, dywedodd, 'Mae yma ddigon bron i adeiladu tŷ newydd i Dduw.' Cymmerodd y trydydd pwrs. ''Nawr, rhedwch,' meddai Ryder, a rhedeg wnaethom; ac yn y funyd clywsom yr hen wr yn curo y *flint* a'r *steel*, y rhai oeddynt wrth law iddo trwy yr amser. Dysgwyliem bob munyd gael ein chwythu yn ddarnau. Yr oedd drws y ffrynt fodd bynag yn agored o'n blaen, a chawsom ein hunain mewn munyd yn yr ardd. Yr oedd y nos yn dywyll iawn. Rhuthrasom yn wyllt trwy y llwyni a'r dyrysi, gan guro ein penau ar draws y coed, ac o'r diwedd aethom dros y clawdd i'r heol. Erbyn hyn yr oedd ein gwynebau wedi eu crafu, a'n dwylaw a'n dillad wedi eu rhwygo yn dost.

Nid oedd y mater i derfynu yma. Taenodd yr hanes fod tri chythraul du, gyda chyrn a chynffonau, wedi myned i mewn i dŷ yr Hen Arddwr, a bod hwnw nid yn unig wedi eu dychrynu, ond wedi cael oddiwrthynt swm mawr o arian, yr hwn a fwriadai ei osod allan i godi capel newydd. Taenwyd y si fod yr Hen Arddwr ar fedr pregethu y Sul canlynol, ac wedi hyny gofyn am danysgrifiadau at y capel; y byddai iddo roi hanes y dull rhyfeddol y cafodd ei helpu tuag at arian yr adeilad. Yr oedd ein gwaradwydd yn gyflawn. Cynhyrfwyd ein cywreinrwydd fodd bynag, ac aethom ein tri i glywed yr Hen Arddwr yn rhoi hanes yr anturiaeth. Y Sul a ddaeth. Yr oedd y capel yn orlawn, ac ni bu un anhawsdra i ni guddio ein hunain. Yr oedd y bregeth yn fyr; ond hanes yr anturiaeth yn fanwl ac yn ddesgrifiadol iawn.

'Ni welais i erioed' meddai yr hen wr, 'wynebau duon yn gweddio gyda mwy o ddefosiwn. Yr wyf yn amheu, fodd bynag, a oedd eu gweddiau yn nghyfeiriad y nefoedd. Yr oeddynt weithiau â'u gwynebau at y drws, ond yr oedd golwg ar y *flint* a'r *steel* yn eu cadw yn llonydd. Yna' meddai, gydag ysgwydiad pen a chwerthiniad gorfoleddus, 'nid oeddynt wedi arogli powdwr, fel yr hen filwr a ddaethant i geisio ei yspeilio. Na, na. Yr oedd yn grugyn mawr, digon mawr

i ddychrynu yr hen General Clive ei hunan. Yr oedd y ganwyll yn nghyn, a'r *flint* a'r *steel* yn barod. Yr ydych yn barod i ofyn a oedd dim peth ofn ar yr Hen Arddwr? Dim, dim, gyfeillion anwyl,' meddai yr hen wr ar dop ei lais, nid oedd y crugyn mawr a dybient hwy yn bowdwr, yn ddim ond crugyn mawr—crugyn blwyddyn o had wynwyn (*onion*).' Chwerthinodd yr holl gynnulleidfa mewn modd oedd hytrach yn annefosiynol, ac yr oedd y saint eu hunain bron yn llefain allan, a llawer yn clapio eu dwylaw. Am foment tafliwyd fi i syndod gan yr adroddiad, ond o'r diwedd methais ymgadw rhag chwerthin fy hunan. Darfu i ni danysgrifio at y *fund* er gochelyd drwgdybiaeth, ac yna gadawsom y cyfarfod. Ar ol y bregeth daethom at ein gilydd, ac am dipyn, allem ni ddweyd dim; ond wrth feddwl am yr 'hadau wynwyn' torwyd allan yn chwerthin uchel. Adeiladwyd y capel â'r arian a gasglwyd gan yr Hen Arddwr."—*Christian Freeman.*

Y LLITH OD.

"Cynnelw yn einyn gan Cadechyn."

Dymuna yr hen wr Llwyd gyflwyno ei ddiolchgarwch calonog a mwyaf diffuant, i'r foneddiges ddoniol "Jane," am ei llythyr campus a thra dyddorol yn yr Ymofynydd am Hydref 1882, tud. 321. Yr wyf wedi cael y fraint o fwynhau gwleddoedd meddyliol blasus, a gwir iachus, gan *Fenywod*, cyn hyn, a dwys obeithiaf, drwy genad ein Tad nefol, y caf etto fwynhau y cyfryw ddanteithfwyd lawer o weithiau. Diddadl genyf fi, ein bod ni yn rhy ddiystyrllyd a rhagfarnllyd o'r rhyw deg, gan gredu nad ydynt yn gymhwys a galluog i ddim ond hwsiaeth neu deuluyddiaeth; camsyniad dybryd ydyw hyn. Yn ol barn Mr. Llwyd, *Menyw* ydyw prif arweinydd ac hyfforddydd y blagurau dynol, a gobeithiaf, o'n nghalon, na edy Jane yr achos hyn ar gymmaint ac y mae hi wedi ei ysgrifenu. Hwyl dda iddi, pwy bynag ydyw.

Briwsion gwerth eu trysori yn y cof. Yr enllibwr a'r brad-lofruddiwr, a wahaniaethant, yn unig, yn eu harfau.

Caredigrwydd wna gyfeillion o elynion; balchder a wna elynion o gyfeillion.

Arferer ymddygiad hynaws a gostyngedig wrth siarad.

Ymarferiad eneidiol, meddyliol, a chorfforol, yn unig, a'n dyga ni i sefyllfa y dyn perffaith. Mae llawer o ddynion yn achwyn nas gallant hwy gael geiriau i osod allan eu meddyliau, pan mai y gwir drafferth ydyw cael allan feddyliau i'w geiriau.

Mae yn rheol dda a dyogel i letya yn mhob man fel pe buasem yn meddwl treulio ein bywyd yno, heb un amser esgeuluso y cyfleusdra o wneuthur cymmwynas, neu i ddywedyd gair o wir, neu o wneuthur

cyfaill newydd. Hadau a hauir fel hyn ar fin y ffordd, a gynnyrchant yn fynych gynauaf toreithiog.

Coden wag a yra i bant gyfeillion.

"Rhyw deimlad gwynfydig i'r hen â'r methedig,
Yw troi y dychymyg i'r hen amser gynt,
Pan godem fal cewri gastelli'n y gwynt."

Er ys blynyddau lawer yn ol, cyn bod toraeth o "eithin ar fy ngên o dan y talcen tolciog," byddwn yn yr arferiad o loffa yma ac acw, ac ar ryw ddydd hapus gynt cefais afael ar y pennillion a ganlyn: y maent wedi eu hadysgrifio oddiar hen law-ysgrifen o waith y bardd a'r Gweinidog enwog "*Tomos Glyn Cothi*;" wrth odre y Tribanau hyn y mae yr ol-ysgrif yma: "*Transcribed May 21st, 1799, at Penpistyll—Mr. E. Williams was present.*"

"ANNOG DAEAROLION I FOLI DUW."

"*Ar hen erddygan Morganwg.*"

I.

1.—Awn holl drigolion daear,
A gorfoleddus lafar,
Bob calon â'i serchiadau'n fyw,
At byrth ein Duw cariadgar.

2.—Awn at orseddfainc nefol,
Yr unig Dduw tragwyddol,
Y sy'n ein cynnal ni bob awr
A'i gariad mawr anfeidrol.

3.—Awn ato mewn llawenydd,
Gwnawn iddo ganiad newydd,
Fe'n gwnaeth o'r dim, a dilys yw,
Cawn trwyddo fyw'n dragywydd.

II.

4.—Ein ceidwad mawr bob amser,
Yw brenin yr uchelder,
A ffydd ddiymmod, meddwl dwys,
Rhown arno'n pwys a'n hyder.

5.—Rhoes air ei ddeddf i'n harail,
Nerth mawr ei fraich a'n cynnail,
I'n harwain oll o'r didro mawr,
Efe bob awr yw'n bugail.

6.—Awn oll i'w byrth â moliant,
Boed iddo'r holl ogoniant,
Maent ar eu taith i'r nefol dir,
Y sawl a'i gwir addolant.

III.

7.—Addolant mewn gwirionedd,
Cyfiawnder a thrugaredd,
Ac ysbryd ufudd, Duw a'u cais,
Rhown glust i lais ei fawredd.

8.—Saif ei ddaioni dwyfol,
Dros fyth yn anorchfygol,
Ei wir ni syfl, a'i gariad clau,
Sydd yn parhau'n dragwyddol.

9.—Pob enaid boed â'i lygad,
Ar Dduw'r anfeidrol gariad,
Yn un â chân myrddiynau'r nef,
Bendithiwn ef yn wastad.

Iolo Morganwg.

TRIBANAU I'R AFRADLON DYCHWELEDIG.

1.—Pan ddychwel dyn Afradlon,
A gadael drwg arferion,
Trugaredd gwn trwy'r goreu gaiff,
Heb groesdod aiff yn Gristion.

2.—Nid Cristion fydd mewn enw,
'R un sylwedd â'r rhai salw,—
O'i burffydd daw yn berffaith dyst,
I ddylyn Crist a'i ddelw.

3.—Mae meddwl Duw yn madda',
I'r gwrthun ddynion gwaetha',
Ond iddynt drin yn addien, drwy
Heb drigo'n hwy'n eu dryga'.

4.—Gwna Duw o'i fawr drugaredd,
Holl waith ei raddol haeledd,
Yn demlau hardd i deimlo hedd,
O'i fwriad fedd, a'i Fawredd.

Edward Evan, a'i cânt, mab yr hen Fardd o'r Ton Coch.

Nant Ddu. Sion Llwyd.

PAHAM Y MYNYCHWN LE O ADDOLIAD?

Y mae dynion yn mhob gwlad ac ar bob cyfnod wedi cydgyfarfod â'u gilydd i addoli yr Yspryd mawr anweledig, yr hwn a deimlent ei fod yn llawer cryfach nâ hwynt eu hunain, ac efallai o'r holl gynneddfau y mae dyn wedi cael ei ddonio â hwynt gan y Creawdwr, mai yr un sydd yn ei wahanu oddiwrth yr anifeiliaid is yw y gallu yma o godi ei enaid i fyny mewn addoliad at Dduw; felly hefyd, efallai, mai y rhagorfraint yma o gynnyg gweddi a mawl i'r Hollalluog Dad ydyw y rhagorfraint ardderchocaf sydd wedi cael ei roddi i ddyn. Peth sicr yw nad oes dim yn tueddu yn fwy i wneyd dyn yn gadarn gyda golwg ar amcan a chyflawniad unrhyw ddyledswydd nâ'i fod yn gweithio gyda Duw, a bod Duw yn gweithio gydag yntau, a'r teimlad hefyd fod yr Hollalluog a'r Hollweledol Dad yn myned gydag ef allan at ei orchwylion dyddiol, ac yn dychwelyd gydag ef adref. Tra y mae dyn yn teimlo felly, prin y mae yn agored i gael ei demtio gan ddrwg, ond gall gyflawnu braidd bob peth trwy gymhorth yr yspryd sydd yn ei gryfhau. Ychydig o honom sydd yn sylweddoli y ffaith pa gymmaint ydym yn cael ein dylanwadu gan weithredoedd ac ymddygiadau ereill, a pha fodd y mae ereill yn cael eu heffeithio gan ein geiriau a'n gweithredoedd ni. Credwn ni fod gan y dyn sydd yn y sefyllfa iselaf, ac o'r talentau lleiaf, os yn byw bywyd gweithgar a rhagorol, yn gwasgar mwy o ddylanwad er daioni ar y gymdeithas ddynol nâ'r dyn didduw, diymdrech, caled, anfoesol ac anffyddol hwnw all lanw y swydd uchelaf yn y wladwriaeth. Addolwn ni Dduw oblegyd ei fod wedi gorchymyn ac yn gofyn i ddynion i'w addoli fel y byddont, o wneuthur felly, i gael eu puro, eu dyrchafu a'u santeiddio; a mynychwn ni yr addoliad cyhoeddus oblegyd y teimlwn ein bod yn cael ein cryfhau a'n sefydlu mewn rhinwedd trwy gymdeithasu a chyduno gyda brodyr a chwiorydd i addoli yr Arglwydd Dduw yn mhrydferthwch santeiddrwydd. Mynychwn dŷ Dduw nid er difyrwch a chywreinrwydd difoes, nid i sicrhau gwybodaeth wyddorol nad pa mor ddyddorol a dymunol y gall fod. Mynychwn ni dŷ Dduw ar y Sul i addoli Duw, i uno ag ereill i'w anrhydeddu trwy ein cân a'n mawl a'n diolch, i weddio ar yr hwn all ein goleuo a'n nerthu a'n bendithio ni. Cydgyfarfyddwn â'n brodyr fel y byddom i gydymdeimlo mwy â'n gilydd yn gystal â phawb ereill. Cyfarfyddwn i dderbyn goleuni a nerth, i feddwl y meddyliau doethaf a goreu, i adeiladu ein gilydd yn y santeiddiolaf ffydd, ac i gael ein cyffroi gan y teimladau puraf a mwyaf nefol. Cyfarfyddwn i uno calon wrth galon yn ein holl ymdrechion o blaid pob mudiad da, i daenu crefydd Iesu Grist, i addysgu yr ieuanc, i gysuro yr oedranus, ac i gael ein parotoi yn well nag mewn un ffordd arall er cyfarfod yn ddewr ag amrywiol brofedigaethau a thrcialon lluosog y byd a'r bywyd presenol. Dywedodd gwladwriaethwr mawr mewn atebiad i'r gofyniad beth oedd ei reswm dros fynychu yr addoliad, "*Fel y byddo i mi ddifrifoli a dyfnhau fy nheimladau a'm myfyrdodau.*" A phwy o honom nad yw ein teimladau wedi cael eu difrifoli gan y meddyliau goreu, ac wedi ffurfio penderfyniadau mwyaf rhagorol ein

bywyd o dan ddylanwad addoliad. Mynychwn ni gan hyny yr addoliad cyhoeddus oblegyd lles annhraethol fawr y mae y cyfryw wedi ei wneyd i ni, a'r argraffiadau dymunol a nefol y mae yn gael ar ein meddwl a'n hymddygiad yn y byd, ac am ei fod yn waith sydd â thuedd uniongyrchol ynddo i ddarostwng balchder a chreu gostyngeiddrwydd yn yr enaid dynol, ac i beri i ni oll, yn uchel ac yn isel, yn dlawd ac yn gyfoethog o ran pethau y byd hwn, i ystyried ein gilydd fel brodyr a chwiorydd, plant yr un Tad nefol, yn sefyll ar yr un safle o gydraddoldeb ger ei fron. Mwy o anian y nef a mwy o yspryd addoli fyddo yn dyfod i'r amlwg yn ein plith. Pe cymmerai hyny le ni fuasai cymmaint o eisteddleoedd yn ein haddoldai yn wag ar yr awr weddi, na chymmaint o oerfelgarwch megys yn rhewi calonau ac yn *blasto* pob yspryd defosiynol yn ein Heglwysi a'n teulnoedd.

Dywed un hen frawd duwiol (y diweddar Barchedig John Martin) ychydig flynyddau yn ol, rywbeth i'r perwyl yma. "Y *mae* Duw yn bod, ac yr wyf yn credu ynddo, ac yr wyf yn meddwl mai peth priodol i mi yw cydnabod yn gyhoeddus fy nyledswydd tuag ato Ef. Ac, yn mhellach, ni allaf fforddio cadw draw oddiwrth yr addoliad cyhoeddus; yr wyf yn awyddus am i'm ffydd fod yn fyw a gweithredol. Ni wn i ddim am un ffordd fwy effeithiol i sicrhau hyny nag i ymddangos yn rheolaidd ac aml yn y tŷ hwnw sydd wedi ei neilltuo i addoliad santaidd a chyssegredig. Heb hyn bydd i grefydd farw. Ni fydd nac athroniaeth, na gwyddor, na gallnoedd meddyliol gadw yn nghyn neu yn fyw y fflam nefol. Na, gyfeillion, ni allaf fi fforddio, gan nad beth wnaiff ereill, i beryglu fy nheimlad o Ddnw a'm dyledswydd tuag ato trwy absenoli fy hun o'r lle y preswylia ei anrhydedd. Yr ydym wedi cael ein hamgylchynu o bob tu gan ddylanwadau tueddol i'n denu oddiar lwybr dyledswydd, a safwn mewn angen am gymhelliadau uwch a mwy ysprydol i gadw yr enaid yn iawn yn ngolwg ei Wneuthurwr. Os, gan hyny, gyfeillion, nad ydych yn dewis i grefydd farw o'ch mewn, nac annghofiwch gydgyfarfod â'ch gilydd yn addoliad cyhoeddus eich Duw." Y mae yn amlwg ddigon i ni weled oddiwrth y geiriau uchod fod eu hawdwr yn ddyn oedd yn teimlo fod lles annhraethol yn gyssylltiedig â'r addoliad cyhoeddus, ac i fod y mynychiad o hono yn arwain i'r canlyniadau mwyaf dymunol yn y byd presenol a'r byd sydd etto i ddyfod.

Ofnwn fod llawer yn mynychu yr addoliad cyhoeddus, fodd bynag, heb fod ganddynt yr un *rheswm* neilltuol dros wneyd felly, ac yn herwydd hyny heb deimlo dim yn fwy ysprydol ar ddiwedd y cyfarfod nag oeddynt cyn ei ddechreu. Nid oes achos i neb o honom fyned yn mhell i chwilio am yr achos o hyn. Anwyl ddarllenydd, gweddus yw i ni oll ofyn i ni ein hunain, gyda phob prysurdeb, i ba un o'r ddau ddosparth ydym wedi eu nodi allan y perthynwn iddo? Cofia mai—

"Gwaith hyfryd iawn a melus yw
Moliannu enw ein Tad a'n Duw!
Son am ei gariad foreu glas,
A'r nos am wirioneddau 'i ras."

X.

BYWYD YR IESU.

Gwers 5.—*Darllener Matt. v.* 21—24, 30—48; *vii.* 21—29.

Testyn Matt. vii. 21.

Mae dwy adnod ddiweddaf y seithfed bennod yn dweyd llawer wrthym. Gwaith yr Ysgrifenyddion oedd esponio yr Ysgrythyrau Iuddewig, yn neillduol pum llyfr Moses, a chael yno gyfarwyddiadau dwyfol gyda golwg ar wir drefniad bywyd. Ni ddysgent ddim ar eu hawdurdod eu hunain, ac ni appelient byth at awdurdod cydwybod dyn ei hunan. Yr oedd pobpeth yn eu cyfundrefn hwy yn iawn neu i'r gwrthwyneb yn ol fel yr oedd yn cael ei orchymyn neu ei wahardd yn y Gyfraith a dybid oedd wedi cael ei hysgrifenu gan Moses. Ond yr oedd llawer iawn o achosion yn codi i fyny nad oedd y Gyfraith yma yn darparu ar eu cyfer, yn gystal á llawer iawn o orchymynion nas gellid eu cadw o herwydd fod amgylchiadau wedi cyfnewid. Sut yr oeddent i ddyfod allan o'r anhawsder hwn? Mewn rhan trwy ddull o esponio a'u galluogai i dynu braidd unrhyw syniad o un neu ragor o osodiadau yn y Gyfraith, ac mewn rhan trwy appelio at yr hyn a elwid yn "Draddodiad y Tadau," yr hwn oedd wedi dyfod i lawr o enau i enau oddiwrth Moses trwy genedlaethau olynol o Rabbiniaid. Yn y modd hyn yr oeddent yn gallu dysgu y bobl beth bynag a feddylient yn angenrheidiol, a'i osod i gyd i orphwys ar awdurdod Moses.

Darfu i'r Iesu o'r dechreuad gymmeryd tir uwch, a llefaru fel un ag oedd ganddo awdurdod o hono ei hun. Yr oedd Moses wedi dweyd, "Na ladd," dywedodd yr Iesu "Na ddigia wrth dy frawd." Nid y weithred allanol o ladd yn unig oedd yn bechadurus; yr oedd y teimlad mewnol sydd yn arwain i lofruddiaeth yn *wrong*, a dylai gael ei ymlid ymaith. Mae y gwahaniaeth yma yn un o nodweddion mwyaf pwysig addysg yr Iesu, yr oedd ef am fyned at y galon a gwneyd hono yn bur ac yn santaidd. Gwyddai fod Duw yn gweled yr hyn mae dynion yn feddwl am dano; ac mor ddwys y teimlai yr anmhosibl-rwydd i ddyn i fod yn iawn gyda Duw tra heb fod yn iawn gyda'i gyd-ddyn, fel y dywedodd, "Os dygi dy rodd i'r allor, ac yno ddyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn: Gad yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith; yn gyntaf cymmoder di à'th frawd, ac yna tyred ac offrwm dy rodd." Mae yr egwyddor yma yn debyg i'r hon a osodir allan yn un o'r Epistolau (1 Ioan iv. 20), "Yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn nis gwelodd."

Yn yr un modd gwrthwynebai'r Iesu bob math o lwon; yr oedd ef am i ddynion allu ymddiried mewn Ie a Nage syml, a daeth enghreifftiau tarawiadol iawn o dan ei sylw o'r modd ag mae pob didwylledd a gwir deimlad o anrhydedd yn myned i golli pan mae pobl yn cael gafael ar y syniad, nad yw eu gair ddim yn eu rhwymo ond pan mae yn cael ei ddweyd mewn rhyw ffurf neillduol (Matt. xxiii. 16—22). Hefyd gwrthwynebai yn fwy difrifol byth, ar ei awdurdod ei hun, yr

hen ddeddf oedd yn gofyn "llygad am lygad, dant am ddant." Yr oedd ef am i'w ddysgyblion i ad-dalu unrhyw niweidiau a dderbynient â charedigrwydd yn unig; yr oeddent i gofio eu bod yn blant y Tad nefol; nid oedd yn ddigon iddynt i fod cystal â phobl oddiamgylch iddynt, ond i ymgeisio am berffeithrwydd.

Yn awr beth oedd dirgelwch yr hyder rhyfeddol gyda'r hwn y traethai yr Iesu yr addysgiadau goruchel hyn? Yr oedd rheswm gan yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid i ofyn iddo ar ol hyn, "Trwy ba awdurdod yr ydwyt ti yn gwneuthur y pethau hyn?" A allwn ni ateb y gofyniad hwn? Meddyliwn ein bod yn gwybod y dirgelwch hwn yn mywyd yr Iesu. Yr oedd ef yn byw mewn cymmundeb gwastadol â Duw. Yr oedd ef yn gwybod fod llais Duw oddifewn iddo tucefn i bob gair a lefarai, a phob gweithred a wnai. Nid oedd ef yn rhoddi ei farn bersonol ei hun yn unig, ond llefarai yr hyn oedd ei gydwybod yn ddweyd wrtho sydd *raid* fod yn wir. A gwyddai fod gan bob un o'i frodyr gydwybod fel ei eiddo ei hun, ac at hon yr oedd yn appelio yn ei ddywediadau rhydd ac eofn, gan eu gorchymyn i farnu drostynt eu hunain yr hyn oedd iawn, tra yn cyfarwyddo eu barn trwy ddweyd yn blaen wrthynt sut yr oedd pethau yn ymddangos i'w weledigaeth clirach ei hun. Ond yr oedd hyn yn ddull o addysg foesol nad oedd y bobl wedi gael erioed o'r blaen, ac felly yr oeddent yn synu at ei ddysgeidiaeth.

Gan fod addysgiadau yr Iesu mewn perthynas i beidio sefyll yn erbyn niweidiau yn cael eu cyhuddo yn fynych o ormodiaeth, byddai yn dda i gofio yr amgylchiadau neillduol o dan y rhai y llefarwyd hwy. Yr oedd yn debyg iawn fel pe byddai cenadwr Prydeinig yn nghanolbarth Affrica yn rhybuddio rhai o'r brodorion oeddent wedi eu troi at Gristionogaeth i beidio gadael i greulondeb eu hen gymdeithion i'w cyffroi i dalu drwg am ddrwg, oblegyd byddai hyny yn sicr o derfynu yn eu dinystr. Yr unig *chance* posibl i'r Cristionogion boreu oedd "gorchfygu drygioni â daioni." Mewn gwledydd gwareiddiedig diweddar mae yspryd yr addysg yma yn parhau yn gymhwys, ond yn sicr nid y llythyren. Mae yn rhaid i ni beidio defnyddio Crist fel y defnyddiai yr Ysgrifenyddion Moses.

Prif bwnc y wers yma yw yr awdurdod gyda'r hon y dysgai'r Iesu, a'r ffynnonell yn llais y gydwybod sydd yn perthyn i ni gyd.

Gofyniadau ar Wers V.

(1) Pa beth oedd gwaith yr Ysgrifenyddion? Ar ba awdurdod oeddent yn dysgu?

(2) Pa beth oedd "Traddodiad y Tadau?"

(3) Pa beth oedd un o brif nodweddion addysg yr Iesu? Eglurwch trwy enghreifftiau.

(4) Ar ba awdurdod y gorphwysai ef?

(5) Dangoswch fod ei addysg gyda golwg ar wrthsefyll niweidiau yn gymhwys at amgylchiadau y Cristionogion boreu.

M. S.

CYNNYDD MEDDWL YN YR EGLWYS.

Mae meddwl dyn ar ei gynnydd o hyd; mae yn chwilio allan am bethau newydd, ac yn cael gafael mewn gwirioneddau na freuddwydid am danynt ganrif yn ol. Mae dynion mawrion yn herwydd hyny yn newid eu barn, ac yn wir nid yw yn iselhad i neb i newid ei hen opiniynau pan mae wedi cael gafael mewn rhai newydd a gwell, ond mae'n iselhad i ddyn i aros mewn tywyllwch pan mae goleuni wedi ymdori arno. Un o'r enghreifftiau diweddaraf o hyn yw y Parch. Henry Ward Beecher, pregethwr mawr America. Darfu iddo ef yn ddiweddar ysgrifenu i newyddiadur crthygl hir o dan y penawd ag wyf fi wedi gymmeryd i'r sylwadau hyn. Mae yn dechreu trwy ddweyd os gyrir pobl America byth allan o'r eglwys ac oddiwrth y grefydd Gristionogol, mai bai yr eglwys a'r pwlpud fydd hyny. Yn ei dyb ef mae credu yn fwy naturiol i bobl ydynt yn siarad Saesonaeg nag annghredu. Ni fu yn America erioed y fath beth ag "*organized infidelity*;" 'does gan anffyddiaeth yr un cfengyl. Mae dynion enwog a da wedi bod yn anffyddol i gredoau yr eglwys, ond yn anfynych yn anffyddol i grefydd. Mae cyfnewidiad mawr yn myned dros feddwl y bobl mewn materion o wirionedd crefyddol. Yr ydym yn gadael yr oes yn yr hon y perchid eglwysi ac yr edrychid arnynt fel yn ddwyfol trwy ordeiniad Duw. Mae dynion yn dyfod i gredu fod gwaith yr eglwysi yn odidog ac yn ddwyfol, ond ddim o'u hadeiladwaith a'u dechreuad. Mae eglwysi wedi tyfu oddiar angenion y natur ddynol yn ceisio am ddyrchafiad moesol, fel mae ysgolion yn tyfu oddiar yr angen am ddablygiad meddyliol; fel mae sefydliadau elusengar yn tyfu oddiar angenion dynoliaeth, a llywodraethau gwladol yn tyfu oddiar angenion cymdeithas. Darfu i Dduw greu y natur ddynol, ac mewn ystyr, bobpeth sydd yn angen arni. Credd haiarn, ond ddim peirianwaith; fforestydd, ond ddim dodrefn; gwlan, ond ddim dillad; lliwiau, ond ddim darluniau; natur grefyddol mewn dyn, ond ddim ysgolion ar gyfer crefydd. Bydd y fath olygiadau i ddiwreiddio pob ofergoeledd a chrediniaeth gau mewn perthynas i eglwysi, a'u planu hwynt ar dir rheswm. Ni wna y fath gyfnewidiad ddystrywio na gwanhau sefydliadau Cristionogol. Y rhai yma yw y ffynnonellau sydd yn anfon allan eu dylanwad i foesoli, i addysgu ac i ysprydoli holl ddynolryw. 'Dyw gweithgarwch na holl les yr eglwysi ddim tu fewn i'r eglwysi yn fwy nag yw lles yr haul tu fewn i'r haul. Nid yw'r goleudy yn goleuo iddo'i hunan, ond i'r sawl ydynt yn mhell ac agos ar for tymhestlog a digofus. Mae eglwysi yn taflu eu goleuni i foesoli pob cymdeithas.

Mae cyfnewidiad amlwg wedi dyfod dros yspryd addoliad. Yn y canoloesoedd pan oedd y mynachod yn arfer eu dylanwad dros feddyliau'r bobl, addoliad oedd parch wedi ei grogi ar ofn. 'Doedd Duw ddim ctto'n dad, addoliad ddim ctto'n gariad. Nychu ei hunan, syrthio i lawr gerbron yr anadnabyddus, credu fod dyn yn waeth nag yw e' mewn gwirionedd, marwhau cyffroadau naturiol a diniwed,—dyna'r hyn a ystyrid yn derbyniol gan Dduw. 'Dyw parch ddim yn

llai nag oedd o'r blaen, ond mae ei iaith a'i agwedd wedi cyfnewid. 'Dyw ei lais mwyach ddim yn lais ofn. Mae wedi dysgu moesau ac ymadroddion rhyddid a chariad. Mae wedi blodeuo, ac y mae yn fwy peraroglus a phrydferth yn awr nag yr oedd yn y dyddiau boreuol.

(1.) Meddylir fod y byd yn ddyledus i feddylwyr dwfn, i ymchwilwyr manwl, ac nad yw y bobl gyffredin yn ddim ond derbynwyr o'r breintiau na wnaethant ddim er eu dwyn oddiamgylch. Ond mae y gallu hwn o eiddo ysgolheigion a gwyddonwyr yn ymddibynu i fesur helaeth ar ddealldwriaeth a chydymdeimlad y bobl gyffredin. Maent yn rhoddi nerth, lledaeniad a brwdfrydedd i ffrwyth llafur caled a dysgedig. Y nhw yw y mamau maeth sydd yn gofalu am blant yr ymhenydd. Maent yn rhoddi cynnaliaeth i'r sawl ydynt yn archwilio. Mae cymmaint o angen am ddealldwriaeth a chydymdeimlad y bobl gyffredin ag sydd am ddysg a gwyddoniaeth enwogion ein gwlad. Beth yw llais un dyn wrth ei gymharu ag ateb miloedd er mwyn lledaenu y gwirionedd? Mae un yn cyneu y ganwyll, ond mae miliwn yn adlewyrchu ei goleuni ac yn ei wasgar yn mhell ac yn agos. Gall hyd y nod wawr welw y pwlpud ddyfod yn oleuni tanbaid canol dydd yn mhlith y rhai sydd yn gwrando. Pan oedd Israel gynt yn sefyll rhwng mynydd Ebal a Garisim i wrando y ddeddf yn cael ei thraddodi, gwaeddai y bobl "Amen" ar ddiwedd pob brawddeg. Beth oedd llais egwan un siaradwr i'w gymharu i daran yr "Amen" fawr ogoneddus hono ag oedd megys yn siglo y mynydd a'r ddaear? Ymwybodolrwydd moesol y bobl yw yr Amen i'r pwlpud. Fel mae yr Ysgolion Sabbothol yn dwyn miloedd o fechgyn a merched ieuainc at eu gilydd ac yn eu gosod yn y swydd o athrawon, dysgir iddynt i efrydu yr Ysgrythyrau Sanctaidd; rhoddir cynnorthwyon iddynt; maent yn dod yn gyfeillion i'r pregethwr neu'r offeiriad. O'r diwedd maent yn ffurfio y rheithwyr y mae efe yn dadleu o'u blaen. Yn y ffordd yma mae gwybodaeth ysgolheigaidd yn raddol yn cael ei thaflu o'r neilldu, edrychir yn fach ar resymeg ffurfiol yn unig, ac mae yspryd y bobl, er eu mwyn eu hunain, ac er mwyn eu plant, yn hawlio gwybodaeth ymarferol a all gael ei throi at ddybenion ac amcanion bywyd. Yn y ffordd hon mae y pwlpud yn newid ei ddull a sylwedd ei bregethau. 'Does dim gwahaniaeth beth a dybir am bynciau dyrys etholedigaeth a'r cyffelyb, mae cynnulleidfa o dadau a mamau yn gwybod beth yw Tadoldeb. 'Dall un cyfrwysdra nac arabedd eu perswadio hwy, y gall Duw, yr hwn sydd am ddeg mil o flynyddau wedi llafurio i greu poblogaeth annherfynol o eneidiau damniol, gydag un priodoldeb gael ei alw yn Dad iddynt. Mae synwyr cyffredin y ddynoliaeth, y teimlad moesol, y rhai ydynt wedi tyfu allan o'r efengyl, yn barnu duwinyddiaeth. O dipyn i beth mae y pwlpud yn gadael ar ol dduwinyddiaeth y canoloesau. Mae pregethwyr ar y dechreu yn ei chaboli â deongliadau newydd, yna maent yn ei hamheu ac yn ei gwrthod.

(2.) Mae teimlad cryf o'r hwn sydd yn cynnyddu yn barhaus, i eangu cylch Dadguddiad Dwyfol trwy ychwanegu at y Beibl ddadguddiad, ac o reswm ac ymwybodolrwydd moesol dyn, y rhai ydynt

yn ran benaf o Natur. Mae duwinyddiaeth ar y cyfan wedi edrych ar y dadguddiad a geir yn yr Ysgrythyrau fel yr unig un a all dyn ei gael. Mae wedi edrych yn ddrwgdybus ar reswm, gan ddefnyddio ei holl allu i chwilio am wrthddadleuon yn erbyn arfer rheswm. Mae wedi gwneyd mwy nag amheu natur—mae wedi ei diraddio, a'i gwneyd yn watwareg. Mae yr yspryd yma wedi halogi meddyliau dynion, a pheri anughydfod rhwng y Beibl a Natur. Mae ymbwyso ar reswm wedi cael ei ystyried yn bechod ac yn fagl. Ar beth ynte yr ymbwyswn ni? Os na all dyn ddefnyddio ei lygaid, sut mae e' i weled? Dysgir ni fod yn rhaid i ddyn gymmeryd gair Duw heb amheu dim. Ond sut y gallwn ddeall y gair os na wnawn ddefnydd o'n rheswm? Ai nid oes Air arall o eiddo Duw ond y Beibl? A yw y nefoedd wedi peidio a mynegu gogoniant Duw, a'r ddaear i ddangos gwaith ei ddwylaw? Ai nid yw Duw yn llefaru mwyach trwy ymwybodolrwydd moesol dyn? A waherddir dyn i arfer ei reswm ei hunan tra y gorchymynir iddo i gredu ymresymiad yr Eglwys? A eisteddodd Duw i lawr i ysgrifenu'r Beibl? neu a ddarfu iddo sibrwd ei holl osodiadau yn nghlust dynion ysprydoledig, y rhai a ddaethant yn fath o beiriannau i drosglwyddo ei eiriau o un genedlaeth i un arall? A yw Duw wedi bod yn gwneyd dim am ddwy fil o flynyddoedd, oddiar pan orphenwyd yr Ysgrythyrau, ag y byddai yn werth i ddyn i'w wybod? Ni wadir fod Duw yn siarad trwy yr Ysgrythyrau, gan eu bod yn gofnodiad o brofiad dynol o dan dywysiad ac yspryddoliaeth ddwyfol. Pan mae dyn trwy ddefnyddio'r Ysgrythyrau wedi tyfu i reswm eangach, wedi ymgodi i foesoldeb uwch, i ysprydolrwydd dyfnach, i ddoethineb bywyd ag oedd yn anadnabyddus yn yr hen amseroedd, a yw yr amlygiad yma o Dduw trwy natur dderchafedig a phuredig dyn, yn annheilwng i gael ei gyfrif a'i restru gyda'r amlygiad a wnaed o hono gan y bobl gynt? Mewn un ystyr bwysig mae yr Ysgrythyrau Sanctaidd o Dduw. Cynnwysant wirionedd gwerthfawr. Trwy eu hundeb moesol a'u cydgordiad á rheswm dynol ac á ymwybolrwydd moesol deallus, mae ganddynt yn gyfiawn awdurdod dros ymddygiad a chymmeriad dynion. Ond nid ydynt yn hawlio y fath berffeithrwydd peiriannol ag mae dynion wedi briodoli iddynt. Mae ganddynt awdurdod yn unig pan y maent yn cydfyned á rheswm dynol wedi ei addysgu, ac â theimlad moesol rhesymol.

(3.) Symmudiad mawr arall yn ein hamser yw y duedd sydd i adael credoau y gorphenol a ffurfio credoau i gyfarfod ag angenion presenol ac á'n gwybodaeth bresenol o'r gwirionedd. Mae llawer o'r hyn a elwir yn anffyddiaeth yn gynnwysedig mewn gadael ac ymddihatru oddiwrth gyfeiliornadau yr hen dduwinyddiaeth. Mae yr Eglwys, y Beibl, y Gredo wedi cael eu cymmysgu á chrefydd. Crefydd yw sefyllfa—agwedd enaid dyn—bywyd ac ymarweddiad yw. 'Does gan Eglwys, na Llyfr na duwinyddiaeth ddim un gwerth ynddynt eu hunain ond mor bell ag y maent yn offerynau i addysgu a diwygio. 'Does ganddynt yr un cyssegredigrwydd ynddynt eu hunain. Maent yn weision. Gan ddyn yn unig, yr hwn sydd yn blentyn i Dduw ac yn etifedd anfarwoldeb, mae sancteiddrwydd cynhenid. Ond y farn

sydd wedi cael ei gwrteithio'n afalus yw, fod dyn yn syrthio i anffyddiaeth, os nad yw e'n derbyn y credoau poblogaidd, bydded ei fywyd e' mor gyfiawn, mor bur ac haelfrydig ag y byddo. Herosi yw gwahaniaethu oddiwrth y gredo boblogaidd. Mae llysoedd a chynghorau wedi collfarnu a chondemnio pob heresi. Gall dynion fod yn falch, yn fydol ac yn drahaus, ac fel hyn, mewn ymarferiad, i ymwadu â phob egwyddor o fywyd Cristionogol, ac eto i fod yn uniawngred, ac o ymddangosiad da yn ngolwg eu cyd-ddynion; ond 'dyw bywyd santaidd, os yw yn ymwrthod à chredo farbaraidd, ddim yn deilwng o gydymdeimlad nac o aelodiaeth eglwysig. Mae Beecher yn credu fod yn bryd i gael gwared o'r ffolineb au yma, ac fod yr eglwys yn raddol yn ymddiosg o honynt. Mae mwy o duedd yn awr nag erioed i edrych ar bobpeth a barnu pobpeth yn ngoleuni dysg a gwybodaeth yr oesoedd diweddar. Mae yn barnu ein bod wedi cael digon bellach ar y Drindod, y llygredd gwreiddiol, a phynciau dyrys beirniadaeth, a bod yn bryd i'r eglwys i dori yr hualau hyny y mae wedi brwydro danynt cy'd, ac i ddyfod unwaith eto yn rhydd i farnu drostynt ei hunan—mor rhydd à'r eryr ysglyfaethgar sydd yn hedfan yn ddirwystr trwy yr awyr deneu i'w chartref mynyddig.

J. H. D.

ONID CYMRAEG YW?

Wele ddyfyniad allan o "*Latham's Comparative Philology*," p. 670, "found in the fly-leaf of a copy of *Juvencus*. It is pronounced to be not Welsh; not Cornish; but *Pict*."

1. Ni guorcosam nemheunaur henoid
Mi telun it gurmaur
Mi am franc dam an calaur.

2. Ni con ili ni guardam ni cusam henoid,
Cel iben med nouel
Mi am franc dam an patel.

3. Na mereit nep leguenid henoid
Is disoinn mi coweidid
Dou nam Riceur imguetid.

CYFIEITHAD MR. NASH.

1. I shall not sleep a single hour to-night,
My harp is a very large one,
Give me for my play a taste of the kettle.

2. I shall not sing a song, nor laugh or kiss to-night,
Before drinking the Christmas mead,
Give me for my play a taste of the bowl.

3. Let there be no sloth or sluggishness to-night,
I am very skilful in recitation—
God, King of Heaven, let my request be obtained.

CYFIEITHAD ARCHDDIACON WILLIAMS.

1. I will not sleep even an hour's sleep to-night,
My family is not formidable,
I and my Frank servant and my kettle.

2. No bard will sing, I will not smile nor kiss to-night;
Together . . . to the Christmas mead
Myself and my Frank servant and our kettle.

3. Let no one partake of joy to-night,
Until my fellow-soldier arrives,
It is told to me that our lord the King will come.

Mae Latham yn ychwanegu, "I have given it as I found it. The word *Noël=Christmas* is Anglo-Norman. It is not an impossible, though not *likely*, word to be found in the Pict; though it is quite as likely as the fact of a Pict reading *Juvencus*."

Mewn llythyr, dyddiedig Medi, 1872, a dderbyniais oddiwrth y diweddar Mr. T. Stephens o Ferthyr, mae yn cyfeirio, os nad wyf yn camsynied, at y pennillion uchod. yn y geiriau canlynol: "The Cambridge MS. is much older than the Oxford; and Lhuyd, a good authority, pronounces it to be a Pictish MS., and to have come from Scotland. At all events it contains three verses of the oldest Welsh poetry, now known to exist, but the letters are early Italic, if not Saxon." Nid yw Latham yn dywedyd yn mha le y cafodd y pennillion uchod, ac nid wyf yn cofio i mi eu gweled yn un man arall. Nid yw Zeuss's *Grammatica Celtica* yn fy meddiant, yr wyf yn meddwl eu bod yn hwnw. Yr wyf yn amheu a ydyw darlleniad Latham o honynt yn gywir, a charwn yn fawr gael copi wedi ei danysgrifio gan ryw Gymro. Nid wyf yn petruso dywedyd na wyr Nash ond y nesaf peth i ddim beth sydd ganddo mewn llaw. Ni fyddai yn anhawdd i Gymro i droi cyfieithad Williams i Gymraeg a fyddai yn debyg iawn i'r gwreiddiol. Bydd genyf rai sylwadau ychwanegol dro arall.

T. C. U.

MYNWENT HEN-DY-CWRDD, CEFNCOED.

Ti, Hen-dy-Cwrdd y Cefn! Ceir yn dy Fynwent fud,
Weddillion llawer oes yn huno yma'n nghyd;
Hon yw Machpelah'r fro—hen gyssegredig dir,
Fu dagrau lawer tro yn mwydo'i laswellt îr!
Ei chofgolofnau heirdd sy'n dwyn ar gof i'r byw,
Fod yma amryw feirdd, a gweinidogion Duw—
Y doniau mwyaf ffraeth fu'n deffro bro a bryn,
Sy'n chwyddo'r rhifres faith sydd rhwng y muriau hyn.

Rhwng cangau'r Ywen werdd sydd yn y Fynwent hon,
Chwareua'r awel gerdd gwynfanus dawdd y fron ;
Uwch ben y gweryd oer mae hi yn gwyro'i dail,
I gadw gwên y lloer, a grymus wres yr haul,
Rhag gwywo'r glaswellt mân a'r tyner flodau sydd,
Yn dal eu gruddiau glân dan ddagrau'r cwmmwl prudd,
Fel arwydd barch i'r byd nas gellir bod yn llon,
Ond dagrau geir o hyd ar feddau'r Fynwent hon !

Pa ddyn, neu ddynes sy', drwy'r cylchoedd hyn o'r wlad
All ddweyd—" Nid oes i mi 'run taid, 'run nain, na thad,
Na mam, na brawd, na chwaer, nac unrhyw fab, neu ferch,
O fewn y farwol gaer fu'n wrthddrych pena'm serch ?"
O na ! hyn ydyw cri braidd pob drylliedig fron,—
" Mae hedd f' anwylyd i rhwng beddau'r Fynwent hon !"
Ffarwel hen fangre brudd—'rwy'n dweyd wrth droi i ffwrdd,
" Mai'm cartref inau fydd yn Mynwent'r Hen-dy-Cwrdd !"

HYWEL MORGANWG.

PWNC Y DYBACCO.

MAE "Un yn 73 oed" yn ysgrifenu fel yma :—"Os gwelwch ryw gymhwysder yn y llinellau hyn, rhoddwch le iddynt mewn rhyw gongl o'r YMOFYNYDD. Y mae T.S.C. yn cael pleser mawr yn y *warehouse* ddybacco a'i chyfrifon. Dywed fod ei erthyglau wedi chwanegu un at ddarbynwyr yr YMOFYNYDD, yn mherson merch. Yr wyf fi yn ddosparthwr, ac y maent yn achwyn fod gan yr Undodiaid bynciau mwy dyddorol nâ thybacco yn arfer bod. Tystiolaeth wan sydd gan T.S.C. Clywais inau ferch ifanc yn dweyd na chymmerai byth saer, ond saer fu'r gwr ; a'r llall yn dweyd na chymmerai byth deiliwr, a'r un ffordd aeth ar hono. Ni chollodd ambell i bibellaid o ddybacco, ac ambell beint o gwrw, erioed yn y *branch* hwnw. Derbynir yr YMOFYNYDD gan siopau a thafarnau ; ac nid oes dim i ddysgwyl ond fod rhei'ny yn anfoddlon am ddirmygu eu *goods*. Na feddylied neb fy mod i am gefnogi cwrw na'r dybacco ; ond defnyddied y sawl fyddo yn eu dewis hwy heb eu camddefnyddio, a pheidied y lleill na allo eu defnyddio rwgnach. Ond yr wyf yn dweyd hyn, fod yn haws adnabod egwyddorion dyn yn y tŷ tafarn nag mewn tŷ gweddi. Mae T.S.C. yn addaw parhau i ysgrifenu wn i ddim faint, ac ofna rhai yr aiff at y tê etto. Meddyliwyf fod T.S.C. yn rhy dalentog i ddyfyru llawer yn chwaneg ar y pwnc yna. Fe sticiodd un talentog iawn at Cranogwen. Mae darllen ar y pwnc yna. Nid dyn greodd gorseni hops na thybacco ; ni wn a yw wedi eu troi at beth na ddylent."

Dywed D. ab Ifan, Caerfyrddin :—" Mawr yw y dwndwr a'r dadwrdd, y cynhwrf a'r ymdaeru, a'r ysgrifenu sydd gan y dynion hyny sydd yn *hoff* o'u peint, os gwelir rhai o aelodau Byddin y Rhuban Glâs yn ysmocio ! Pan ymunir â'r fyddin hono, nid oes dim son am ymwrthod â'r myglys, ond i ymwrthod â phob peth sydd â thuedd feddwol ynddo yr hyn sydd yn niweidiol i gorff ac enaid dyn ! Nid wyf yn myned i amddiffyn ysmocio ; canys nid oes dim yn fwy atgas yn fy ngolwg nâ gweled bechgynach â phib yn eu penau ; ond i wrthwynebu yr haeriad disail a wneir yn gyffredin, 'mai rhyw *hanner* ' Blue Ribbon ' yw y dyn sydd yn methu byw heb y bib.' Un o'r dosparth uchod yw ysgrifenydd yr ychydig linellau hyn ; a chredwyf gyda'r ëondra penaf fy mod yn *Blue Ribbon* o'r iawn ryw, ac *nid* hanner un. Gallaf ddweyd trwy brofiad fod llai o ddrygioni yn y bib nag sydd mewn peint, ' A lleiaf y drygioni y goreu.' Cynghoraf holl ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, yn enwedig gweithwyr, i fod yn llwyr-ymwrthodwyr, am fod 'dydd gwlawog' yn sicr o ddyfod ar ein traws ni oll."

Manion a Hanesion.

CHRISTIAN LIFE.—Ymddangosodd erthygl ar "Undodiaeth yn Nghymru" yn y *Christian Life* am Mawrth 3.

DEALLWN fod yr Indiad enwog Babw Protap Chunder Mozoomdar a'i wraig ar fedr talu ymweliad â'r wlad yma yn ystod yr haf dyfodol. Cofiwn yn dda y pleser a gawsom yn ei glywed yn pregethu yn Croydon (capel Father Suffield y pryd hwn) pan fu yma o'r blaen. Pregethai yn Saesneg, ac fel y dywedwn ni yn Nghymru "dros y fraich," a hyny yn fwy hyawdl nâ nemawr i Sais a glywsom erioed.

GELLIONEN.—Cyflwynwyd tysteb i Mr. D. Davies, Gwernllwyn, Ionawr 27, am ei ffyddlondeb gyda'r canu.

ALLTYPLACA.—Cynnaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei chylchwyl flynyddol Mawrth y 7fed. Yn y prydnawn cyfranogwyd gan nifer fawr o'r wledd ddanteithiol a ddarparesid ar eu cyfer gan Mrs. Davies, Lowtre a Miss Evans, Maesymeillion. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod llenyddol o radd uchel, o dan lywyddiaeth y gweinidog, pryd y gwnaed anerchiadau gwerthfawr gan rai o ddeiliaid yr Ysgol. Wedi hyny adroddwyd darnau o farddoniaeth a rhyddiaeth, a chanwyd yn soniarus gan gor y lle a chorau Capelybryn a Llanybyther, yn cael eu cynnorthwyo gan yr enwog Caradog yn chwareu ar ei grwth. I ychwanegu at amrywiaeth y gweithrediadau, rhoddwyd gwobrau bychain am araeth, dadl, darllen, a chanu, difyfyr. Dangosodd yr ymgeiswyr yn y gwahanol bethau hyn gryn allu, a chawsant gymmeradwyaeth uchel gan y beirniaid—y Parchedigion R. C. Jones a W. Davies. Wedi talu'r diolchiadau arferol, ymwahanwyd yn llawen am gael cystal cyfarfod.—*Un o'r lle.*

ADEILADA Cristionogaeth ei hunan ar y ffaith mai Duw yw y Tad; Hindwaeth ar y ffaith mai Duw yw y Sylwedd; Mohametaniaeth ar y ffaith mai Duw yw yr Ewyllys; Bwdistiaeth ar y ffaith mai Duw yw Gorphwysdra; Parsïaeth ar y ffaith mai Duw yw y Da; hen grefydd yr Aifft mai Duw yw y Mawr; hen grefydd Groeg ar y ffaith mai Duw yw Prydferthwch; a chrefydd Confucius ar y ffaith mai Duw yw Parhaoldeb.

MAE y Bedyddwyr yn hawlio fod ganddynt trwy yr holl fyd 2,826,582 o aelodau.

DYWED Sergeant Atkinson fod llwyth o Indiaid yn Orissa yn addoli y Frenines Victoria fel duwies.

HUNANGARWCH CREFYDDOL. — Meddai hen wr:—"Gynted y cefais allan y cymmersai Duw drugaredd ar bawb, adroddais wrth fy nghymmydogion a'm cyfeillion y newydd da, gan dybied y gwnaent gydlawenhau â mi; ac etto, aeth rhai yn ynfyd tuag ataf." Peth rhyfedd yw fod dynion yn digio am fod dyn yn credu fod iachawdwriaeth i'w gymmydogion yn ogystal ag iddo ef ei hunan. Ymddengys duwinyddiaeth o'r fath fel pe byddai arni beth o nodweddion hunangarwch.

Os yw cariad Duw yn anffaeledig ac yn dragwyddol, y mae yn anmhossibl iddo fethu wrth byrth uffern; rhaid iddo lyncu i fyny uffern ei hunan, fel y mae pelydrau haul yr haf yn llyncu i fyny niwl y boreu. —*J. P. Hopps.*

Artemus Ward sydd yn dywedyd:—"Yr wyf yn credu mewn eglwysi a chapeli. Dangoswch i mi fan lle nad oes addoldai, a lle na welir pregethwyr, a dangosaf finau i chwithau fan lle mae hen hetiau wedi eu stwffio i'r ffenestri, lle mae'r plant yn frwnt ac yn garpiog, lle mae'r clwydi heb *hinges*, lle y mae y gwragedd â'u traed trwy eu bacsau, a lle mae darluniau o 'dir-gwyllt' y diafol wedi eu paentio â sudd dybaco ar frest crysau eu gwŷr. Gadewch i ni ystyried beth mae y pregethwyr yn wneyd drosom, cyn dechreu eu trin.

Nid oes yr un farddoniaeth mor ogoneddus â bywyd Cristionogol; ac mae'r hwn sydd yn llwyddiannus yn annog cyd-greadur i hyny yn cynnyrchu gwaith a oroesa bob gwaith arall o eiddo'r meddwl dynol.—*Channing.*

Er deall crefydd, rhaid i chwi fod yn grefyddol.—*Channing.*

Y mae goleuni, i'r hwn y mae ereill yn ddieithriaid, sydd yn ymweled â llygad mewnol y dyn sydd yn ymorchestu â drwg ynddo ei hunan, ac sydd yn onest i'w argyhoeddiadau o ddyledswydd.—*Channing.*

Nid y pa faint ond y pa fath o wybodaeth, sydd yn penderfynu urddasolrwydd meddwl.—*Channing.*

ABERDAR.—Nos Iau, Mawrth 1, traddodedd y Parch. T.T., Pantydefaid, ei ddarlith hirddysgwyliedig yn nghapel Ebenezer, capel yr Annibynwyr, Trecynon. Pwnc y ddarlith oedd Seryddiaeth, a'i hamcan yn benaf oedd cael ychydig help i leihau y draul ar yr Ysgoldy perthynol i'r Hen-dy-Cwrdd. Yr oedd y ddarlith, yr hon a eglurid gyda chynnorthwy *magic lantern*, yn llawn dyddordeb ac adeiladaeth. Terfynwyd gyda diolch i Mr. T. am ei ddarlith, i gynnulleidfa Ebenezer am eu parodrwydd yn rhoi menthyg y capel,—yr oedd ein capel ein hunain yn llawer rhy fach—ac i'w gweinidog parchus Mr. W. Edwards am lywyddu.

BARNA Esgob Lichfield fod y llifogydd sydd wedi blino y ffermwyr yn ddiweddar yn ganlyniad etholiad Mr. Bradlaugh i Dŷ y Cyffredin.

YSGOL SUL PANTDEFAID.—Cynnaliodd yr Ysgol uchod ei chylchwyl o dê a bara brith prydnawn dydd Gwener, y 9fed o Fawrth diweddaf. Cafwyd cyfarfod rhagorol yn mhob ystyr. Wedi cael o bawb eu digoni â thrwyth y dail a'r deisien, parotowyd gyferbyn â chyfarfod yr hwyr. Yr oedd esgynlawr cyfleus wedi ei osod i fyny er mwyn y cadeirydd, y swyddogion, yr adroddwyr a'r cantorion. Y cadeirydd oedd Mr. Jno. Evans, Penlan, Gyfeile, yn cael ei gynnorthwyo gan Mr. Edward Thomas, Road Surveyor, a phrif swyddog yr Ysgol Sul yn y lle. Rhwng y canu a'r adrodd aethpwyd trwy oddeutu triugain a deg o ddarnau yn llwyddiannus a dyddorol iawn. "Pawb o'r brodyr yn gytun, heb neb yn tynu'n groes." Gorphenwyd yr holl waith erbyn deg o'r gloch, ac erbyn hyn yr oedd yn llawn bryd i bawb fyned tua thref.—*Ymwelydd.*

MAE Mr. Francis Peek yn ei lyfr ar "Social Wreckages" yn dywedyd fod yn Lloegr a Chymru hanner miliwn o feddwon, tra mae dwy filiwn ychwanegol yn ddyoddefwyr diniwed oddiwrth y pechod o feddwdod. Allan o 810,000 a ddesgrifir fel *paupers*, mae mwy nâ 500,000 wedi dyfod i'r cyflwr hwnw o herwydd annghymmedrolder. Barna Dr. Edgar Shepherd fod 40 o bob cant o'r rhai sy'n colli eu synwyriau yn eu colli yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol trwy y diodydd meddwol.

MAE General Booth yn benthyca arian yn ol 7½ y cant i gario gwaith y *Salvation Army* yn y blaen. Wrth y cyfryw a fwriadant speculatio mae y *Methodist Recorder* yn dywedyd yn wresog iawn "Don't."

DYWEDIR fod y Proffeswr Agassiz wedi gwneyd cyfrif, ac wedi cael allan y tyfai ewinedd bysedd dyn dair mil o droedfeddi mewn mil o flynyddoedd. A oes rhywun a gyfrifa pa hyd fydd trwyn dyn yn hanner yr amser hyny, os parha yn ei wthio i mewn i fusnes nad yw yn perthyn iddo, ac na fydd o'r dyben lleiaf i'r byd yn gyffredinol?

CANWYLL DDIMAI.—Meddai hen wr mewn dillad llwydion a charpiog, "Nid oes genyf fi ddim mwy o ddylanwad nâ chanwyll ddimai." "Wel" oedd yr ateb, "mae llawer y gall canwyll ddimai ei wneuthur; gall osod das o wair ar dân; gall losgi tŷ; gall fwy, gall alluogi hen greadur tlawd i ddarllen ei Feibl. Ewch rhagoch, gyfaill, a gadewch i'ch canwyll ddimai lewyrchu 'felly gerbron dynion, fel y byddo i ereill wrth weled eich gweithredoedd da chwi, ogoneddu eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.'"

NID oes neb erioed wedi cael achos i edifarhau am ei fod yn onest ac yn rhinweddol yn ei ieuenctid, ac wedi ymgadw oddiwrth gyfeillach ddrwg ac ofer.

MAE Esgob Melbourne wedi gwrthod cyhoeddi gweddi am wlaw.

Dywedir fod silff lyfrau Dr. Pusey i gael ei dori fyny, a'i wneuthur yn groesau i'w gwerthu am hanner coron yr un! Beth nesaf?

DYWED y *New Jerusalem Magazine* fod yr Eglwys wedi colli y gallu i wellhau clefydau o herwydd ei derbyniad o gredo Sant Athanasius.

PAN fyddo dyn heb reswm da dros wneuthur rhywbeth, mae ganddo un reswm da dros ei adael yn llonydd.

DYWEDIR fod dyn doeth yn debyg i bin, mae ei ben yn ei rwystro i fyned yn mhell.

FEL hyn mae rhywun yn rhoi gwers, siaradwch yn dda yn wastad am y marw, ac yn achlysurol dywedwch air da am y byw, os bydd amser genych.

GALL pob dyn marwol wneuthur rhyw dda; gwnaed y da hwnw yn ffyddlon, a gadawed gyda chalon ffyddiog y canlyniad i Allu Uwch.

MAE'R gosp a oedir yn debyg o fod yn drymach pan y daw.

TYBIWCH eich bod mewn cwmni wedi dyfod yn nghyd i wrando ewyllys yn cael ei darllen, lle y dysgwyliech ran o'r etifeddiaeth; a fyddech yn treulio yr amser yn beirniadu dull y cyfreithiwr yn ei darllen? Dim o'r fath beth. Byddech yn glust i gyd i glywed beth oedd wedi ei adael i chwi. Felly y dylech wrando'r efengyl.

Yr ydym yn darllen yn y *Christian Life* fod Mr. Reckenzaun, un o aelodau capel Mr. Spears, wedi llwyddo i osod yr elfen drydanol i weithio cerbyd ar y dwfr ac un hefyd ar yr heol.

PRIODAS.

Chwefror 19, yn nghapel yr Undodiaid yn y Cwmbach, gan y Parch. E.W. Lloyd, Thomas Wilcox â Gwenllian Davies, y ddau o'r Cwmbach.

Marwgofion.

Ionawr 21, yn Maesygarn, annedd ei thadcu, yn 4 mis oed, Sarah, anwyl blentyn David Morgan, Trual, Dyhewid. Claddwyd yr un fechan yn mynwent newydd Capelybryn, a chyflawnwyd y gwasanaeth crefyddol yn y tŷ a'r capel gan y gweinidog. Boed modd i'r rhieni tirion i alaru'n gymmedrol.

Chwefror 24, Mr. W. Lawrence, Quakers' Yard, yn 65 oed. Dywed ei gyfaill, Mr. Josiah Jenkins, ei fod yn ddyn parchus iawn yn ei ardal. Yr oedd yn dderbyniwr a darllenwr o'r Ymofynydd, ac yr oedd wedi dadgan dymuniad fod un o'r gweinidogion Undodaidd yn gwasanaethu yn ei angladd. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ yn wresog ac yn bwrpasol iawn gan y Parch. Mr. Williams, gweinidog yr Annibynwyr, a chladdwyd yn mynwent yr Eglwys. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Benderyn.

Mawrth 1, yn y Royal Oak, Cwmbach, Aberdar, Theodosia, gweddw Meyrick Jones, yr hwn a'i rhagflaenodd o gylch saith mis yn ol i'r tŷ rhagderfynedig i bawb marwolion daear. Dyoddefodd y chwaer hon gystudd maith iawn cyn ac wedi claddu ei phriod. Yn wir, ni fu ddim cymmaint ag awr yn iach wedi ei farwolaeth ef. Y Sadwrn canlynol gosodwyd ei gweddillion yn yr un bedd ag ef yn mynwent Eglwys Penderyn. Cyn cychwyn o'r angladd o'r tŷ, cafwyd cwrdd pwrpasol i'r amgylchiad —y Parch. E. W. Lloyd yn gwasanaethu.

Mawrth 4, Mary, merch Edward Richard, 95, Wind St., Aberdar, yn chwe' mlwydd oed. Gwasanaethwyd gan R.J.J., a chladdwyd yn y *Cemetery*.

Mawrth 6, yn 79 oed, ar ol yn agos i chwe mis o gystudd, David Davies gynt o'r Synod, ger Ceinewydd, diweddar o Bontshan, Llandyssul. Yr oedd yr hen wr da hwn wedi bod yn un o golofnau yr achos yn Capelyfadfa am flynyddoedd lawer ac wedi gwasanaethu y swydd o ddiacon gyda ffyddlondeb mawr. Yn anaml hyd y nod yn y blynyddau diweddaf, er gwaethaf henaint a phellder ffordd, y gwelid ei le yn wag yn yr addoliad. Yr oedd e'n gymmeriad ag y carem weled llawer o'i fath yn ein cynnulleidfaoedd. Nodweddid ei holl oes gan foesoldeb o'r fath buraf, a thucefn i'w fuchedd allanol yr oedd yno fywyd cuddiedig o ddefosiwn ac yspryd crefyddol sydd yn gwneyd i fyny "y dyn perffaith yn Nghrist Iesu." Er yn hen batriarch, teimlid parch ac anwyldeb neilduol ato gan yr ieuainc; ac erys ei goffadwriaeth yn mhlith ei holl gydgrefyddwyr yn y Capel yn felus am amser hir. Claddwyd ei weddillion y dydd Gwener canlynol yn mynwent Llandyssul, a gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. W. James, ac yn yr Eglwys, &c., gan Ficer y plwyf.

Mawrth 8, yn 19 oed, o'r *Typhoid Fever*, Thomas, mab Thomas a Mary Jones, Henbant, Talgareg, ger Llandyssul. Bu farw ar ol ychydig ddyddiau o gystudd trwm yn nhŷ ei frawd yn Llundain, lle yr oedd yn gynnorthwywr mewn masnachdy oddiar mis Medi diweddaf. Daeth tyrfa luosog iawn i gyfarfod â'r corff yn *station* Llandyssul prydnawn dydd Sadwrn; claddwyd yr un dydd yn mynwent Capel y Fadfa, a gweinyddwyd ar lan y bedd gan y Parch. W. James, yr hwn hefyd a bregethodd y bregeth angladdol dranoeth yn y Bwlch. Dangosir cydymdeimlad dwys yn yr holl gymmydogaeth tuag at y teulu trallodus.

Mawrth 9, yn ddwy flwydd oed, Jenkin, anwyl blentyn John Davies, Baili, Mydroilyn. Y dydd Llun canlynol hebryngwyd ei gorff at ei deidiau i fynwent Eglwys Llanwnen. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan J. D., Alltyplaca. Na alerwch fel rhai heb obaith.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFDD, &C., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Dalier Sylw.—Mae taliad yn ddyledus gyda'r rhifyn hwn, a charem fod pob brys yn cael ei wneuthur i gael yr oll o'r ol-ddyledion i mewn. Nid yw y cylchrediad etto yn agos y peth yr arferai fod, a gallai rhai o'r taliadau fod yn well.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

"Y Faner Uchel" a "Gwyliedydd beth am y nos." Anfonir copi o bob un ar dderbyniad gwerth Tair Ceiniog o *stamps*.

EIN LLYFR EMYNAU.

Y mae y Llyfr Emynau yn y wasg. Anfoner pob archebion at y Golygydd ar unwaith. Ni fwriedir ychwanegu at na thynu oddiwrth yr hen argraffiad. Hyspysir y telerau yn y nesaf.

YN AWR YN BAROD, PRIS SWLLT,

LLAWLYFR YR UNDODWR:

GAN

ROBERT SPEARS, LLUNDAIN,

Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, trwy ganiatad yr Awdwr, gan

DAVID EVANS.

Dylasai y llyfr cynnwysfawr hwn fod yn llaw pob ymchwiliwr am y gwirionedd. Gellir cael unrhyw nifer o hono ond anfon at *David Evans, Bodawel, Llanwnen, Carmarthen.*

D.S.—Yr elw arferol i Lyfrwerthwyr ac ereill yn cymmeryd dwsin ac uchod.